# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
# 24 Mehefin 2022

**TEITL:** Adroddiad Blynyddol 2021-22

**AWDUR:** Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021-22.

1.2. Mae adrodd chwarterol a blynyddol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod y Bwrdd yn ystyried ac yn nodi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021-22.

2.2 Bod y Bwrdd yn cymeradwyo cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021-22 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae'r adroddiad blynyddol yn edrych yn ôl ar y cynnydd sydd wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf gan Uchelgais Gogledd Cymru. Mae'n ymdrin â'r Cynllun Twf a'r gweithgareddau cefnogol eraill.

4.2. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r Cynllun Twf a'r cynnydd sydd wedi'i wneud wrth gyflawni'r prosiectau ynghyd â cherrig milltir allweddol eraill sydd wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- Tri Achos Busnes Amlinellol wedi'u cymeradwyo a chymeradwyo'r Achos Busnes Llawn cyntaf ar gyfer Canolfan Prosesu Signalau Digidol gyda Phrifysgol Bangor.
- Sicrhau dros £1m mewn grantiau ychwanegol i gefnogi prosiectau yn y Gogledd a oedd yn cyd-fynd â'r Cynllun Twf.
- Sicrhau'r ail wedd o gyllid y Cynllun Twf o £20.45m ym mis Mawrth 2022.
- Lansio'r Strategaeth Ynni ar gyfer y Gogledd gyda Llywodraeth Cymru.
- Cwblhau'r prosiect Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol a welodd gwasanaethau band eang yn cael eu huwchraddio mewn 300 o safleoedd ledled y rhanbarth.
- Lansio gwefan a brand newydd i Uchelgais Gogledd Cymru.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Mae adrodd rheolaidd ar berfformiad y Cynllun Twf yn rhan o'r fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno ac yn un o ofynion allweddol Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **1** | Adroddiad Blynyddol 2021-22 |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

i. **Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**
Fel y nodi'r yn yr adroddiad mae ymrwymiad yng nghytundeb GA2 i ddarparu adroddiad chwarterol ar gyfer trefniadau craffu y Partneriaid. Mae'r hyn a argymhellir yn cyfarch y gofyn yma ac yn rhoi cyfle I'r gyfundrefn craffu gael ei ddiweddaru ac ystyried y wybodaeth wrth ffurfio rhaglenni gwaith. Dim sylwadau penodol arall i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**
Rwyf yn fodlon fod yr Adroddiad Blynyddol yn adlewyrchiad teg o holl waith a chynnydd Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod 2021/22. Ni fydd y penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant newydd.